Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 21 Chwefror 2013**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

## Agenda

**09.30 - 10.00 : Rhag-gyfarfod anffurfiol (preifat)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Craffu ar waith Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (10.00 - 12.00) (Tudalennau 1 - 26)

10.00 - 10.45 : Sesiwn graffu ariannol
10.45 - 11.30 : Sesiwn graffu gyffredinol
11.30 - 12.00 : Papur gwyn ar ddatblygu cynaliadwy

E&S(4)-06-13 papur 1 : Craffu ariannol

John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Matthew Quinn, Cyfarwyddwr, yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol

**12.00 - 13.00 : Egwyl**

### 3. Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (13.00 - 15.00) (Tudalennau 27 - 30)

13.00 - 14.00 : Sesiwn graffu ariannol
14.00 - 15.00 : Sesiwn graffu gyffredinol

E&S(4)-06-13 papur 2

Alun Davies AC, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Andrew Slade, Cyfarwyddwr Polisi'r UE a Chyllido
Rob Hunter, Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad
Gary Haggaty, Dirprwy Gyfarwyddwr Materion Gwledig

## 4. Papurau i'w nodi (Tudalennau 31 - 32)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr.

E&S(4)-06-13 (p1)

**John Griffiths AC /AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**
**Minister for Environment and Sustainable Development**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF-JG-0399-13

Lord Dafydd Elis-Thomas AM
Chair,
Environment and Sustainability
Committee
National Assembly for Wales

13 February 2013

Dear Dafydd,

Thank you for your letter of 28 January regarding my appearance before the Committee on 21 February.

You requested additional information ahead of the meeting – including details of the implications to my portfolio of the supplementary budgets. I am therefore pleased to inform you that I have included comprehensive detail of the two supplementary budget changes during 2012/13, along with a breakdown of the budget, by action and BEL within each action, in my evidence paper that you will receive by Wednesday 13 February.

With regard to the information you requested in relation to Natural Resources Wales (NRW), I can confirm that there has not been a revision to its business plan. The Programme team are reprofiling the financial case contained in the business case to reflect changes in expenditure. A copy of the latest summary page of the financial case is attached at Doc 1, for your information.

As can be seen from the summary document, the predicted benefit outturn over 10 years has increased from £128 million to £156 million, with an overall reduction in expenditure. It is important to emphasise that this summary deals only with the predicted cost of change needed to establish NRW as a fully functional body. Baseline costs (i.e. 'business as usual' costs) are not included.

The original business case predicted the contribution to overall benefits from the merger as shown in the table attached at Doc 2. This benefits profile has changed, largely because costs have had to be reprofiled to advance spend on ICT into the first two years of NRW's life. This has had the effect of reducing the cash realisable benefits from Environment Agency Head Office and Forestry Commission GB in the early years, but made more of this available after that point.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

As can be seen from the summary sheet at Doc 2, the level of cash realisable benefit rises significantly after year 2 in comparison to the original predictions. It should be noted that some of the assumptions made in the original business case are now two years old and may have to be revisited by the NRW executive team in the light of changed circumstances. What remains, however, is the requirement that NRW delivers the overall level of benefits upon which approval of the business case was predicated.

On a separate issue, the programme team has received confirmation from Treasury and HMRC that NRW will become a VAT-exempt body on 27 March 2013.

You also requested a financial update on the Bovine TB Eradication Plan. The table below provides the latest expenditure detail:

| **Budget** | **2011/12 Final Outturn £m** | **2012/13 Suppl budget 2 £m** | **2012/13 Spend to date £m** | **2012/13 Forecast expenditure £m** |
|---|---|---|---|---|
| TB Eradication | 2.06 | 6.60 | 1.00 | 3.60 |
| TB Slaughter Payments and Receipts | 11.94 | 11.66 | 12.50 | 14.80 |
| Overall position – TB Budgets | 14.00 | 18.26 | 13.42 | 18.40 |

In 2011/12 expenditure on TB Eradication mainly focussed on investigative and analytical work to inform policy decisions and the continuous improvement of the TB Eradication Programme. Key areas of expenditure, which have been previously provided to the Committee include, among others:

- Analysis of data and social science following the TB Health Check Wales.
- Investigation of biosecurity measures, best practice and advising farmers on appropriate measures suitable for their individual business.
- Provision of breeding sale data to aid analysis and compare compensation levels.
- Additional investigations (testing, post mortem examination, culture etc) and support for the TB Eradication Programme initiatives by Animal Health and Veterinary Laboratories Agency (AHVLA).
- Ecological expertise to provide advice on the wildlife aspects of the TB Eradication Programme.

For 2012/13, to date, the majority of effort has been focussed on the implementation of the badger vaccination project in the Intensive Action Area. The project has cost around £945,000 to deliver this year, which is in keeping with the original estimates provided in March 2012. A report on the first year's activities and costs is available on the Welsh Government website.

European funding for implementation of the 2012 TB Eradication Plan will offset some expenditure in 2012/13, the current estimate is £3m.

Preparations are well underway for the second year of badger vaccination in the IAA and further expenditure in this financial year is planned in order to facilitate the activities in the Spring.

In addition to the budgets relating to TB Eradication and TB slaughter payments and receipts, the Welsh Government also funds the activity of the Animal Health and Veterinary Laboratories Agency (AHVLA) in Wales. Of the £16.694m budget allocated to fund these activities, an estimated £12.8m will be spent in support of tackling bovine TB.

I trust that this information addresses your request in full and I look forward to updating the Committee on developments within my portfolio at its meeting.

**John Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

### E&S(4)-06-13 papur 1

**Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

**Portffolio**

1. Fel yr amlinellwyd yn fy mhapur tystiolaeth ym mis Mehefin 2012, mae gan fy mhortffolio i gyfrifoldeb trawsbynciol dros ddatblygu cynaliadwy ac mae'n dwyn ynghyd bolisïau ar yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid.

2. Yn y cyfnod anodd hwn i'r economi a gwariant cyhoeddus, ynghyd â'm cyd-Weinidogion, yr wyf yn cymryd camau i gyflawni'r pethau sy'n gwneud gwahaniaeth i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu, eu teuluoedd a'n cymunedau - yn awr ac yn y dyfodol.

3. Mae ein hegwyddor o ddatblygu cynaliadwy'n golygu ein bod bob amser yn ceisio gweithredu er lles tymor hir pobl Cymru tra hefyd yn ymdrin ag anghenion brys yn y tymor byr. Rwyf wedi ymrwymo i drechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau, a darparu llefydd deniadol i bobl fyw a gweithio.

4. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi nifer o'r camau gweithredu penodol yr wyf yn eu cymryd. Mae hefyd yn gosod cerrig milltir a dangosyddion i asesu cynnydd wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Cymru yn yr hirdymor.

5. Fel y gwyddoch, rwy'n benodol atebol am sicrhau bod nifer o feysydd y rhaglen yn cael eu cyflawni'n brydlon – yn fwyaf arbennig y penodau ar Dwf a Swyddi Cynaliadwy (1), Cartrefi Cymru (6), Trechu Tlodi (9), Cymunedau Gwledig (10) a'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd (11).

**Cyllideb**

6. Gellir crynhoi fy nghyllideb fel a ganlyn:

| | **Cyllideb Atodol 2 2011-12 £m** | **Cyllideb Derfynol 2012-13 £m** | **Cyllideb Atodol 1 2012-13 £m** | **Cyllideb Atodol 2 2012-13 £m** | **Cyllideb Derfynol 2013-14 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw**** | 262.326 | 265.183 | 265.153 | 260.131 | 264.455 |
| **Cyfalaf** | 73.811 | 61.629 | 75.369 | 81.639 | 62.311 |
| **Cyfanswm** | 336.137 | 326.812 | 340.522 | 341.770 | 326.766 |

.

** Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllidebau refeniw heb fod yn arian parod ar gyfer costau dibrisiant asedau mewn perthynas â Chyngor Cefn Gwlad

Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Fferm Pwllpeiran ac asedau Swyddfa’r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO).

7. Mae **Atodiad 1** yn rhoi manylion y gyllideb, yn ôl camau gweithredu ac yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) o fewn pob cam gweithredu, ynghyd â manylion am newidiadau a ddaeth i rym yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin 2012-13 a Chyllideb Atodol mis Chwefror 2012-13. Gellir defnyddio’r tabl hefyd i weld lefel y buddsoddiad ar gyfer pob cam gweithredu cyllidebol a gyhoeddwyd, y cyfeirir atynt yn aml fel sail i ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu.

8. O gymharu’r gyllideb derfynol â Chyllideb Atodol mis Chwefror 2012-13, bu cynnydd net cyffredinol o £14.958 miliwn yn Nherfyn Gwariant Adrannol (DEL) yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. Golyga hyn leihad mewn adnoddau o £5.052 miliwn a chynnydd mewn cyfalaf o £20.010 miliwn.

**Cynnig Cyllideb Atodol 1 – Mehefin 2012**

9. Mae’r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi yn rhoi amlinelliad clir o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau seilwaith pwysig. Mae saith blaenoriaeth lefel uchel, ac un ohonynt yw ‘Cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru’. Rydym wedi buddsoddi £5 miliwn mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref fel rhan o’r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012 - £3 miliwn i Nyth a £2.0 miliwn i arbed, gyda 1,000 o gartrefi ychwanegol yn elwa.

10. Derbyniodd y rhaglen arbed £2.74 miliwn o arian hefyd gan y portffolio Tai, Adfywio a Threftadaeth. Rhoddwyd yr arian am gyfraniad y rhaglen tuag at sicrhau y bydd yn ysgogi a chydlynu buddsoddiad ym mherfformiad ynni cartrefi Cymru yn ogystal â helpu i leihau newid yn yr hinsawdd, dileu tlodi tanwydd a gwella datblygiad economaidd ac adfywio yng Nghymru.

11. Cafodd y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ei hatgyfnerthu gyda £6 miliwn ychwanegol fel rhan o’r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Gyllid ym mis Mai 2012. Mae’r arian hwn wedi ei neilltuo i brosiectau sy’n ceisio lleihau’r perygl i gartrefi a busnesau sydd mewn sefyllfa fregus yn ardaloedd Bae Colwyn, Talgarth, Gilfach Ceri a Borth yng Ngogledd a Gorllewin Cymru.

**Cynnig Cyllideb Atodol 2 – Chwefror 2013**

12. Dyma’r prif newidiadau a weithredwyd yn yr ail gyllideb atodol:

- Trosglwyddwyd £2.549 miliwn o Brif Grŵp Gwariant (MEG) y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i gefnogi costau pontio Cyfoeth Naturiol Cymru. Dyma haen gyntaf cais llwyddiannus buddsoddi i arbed a fydd yn helpu i integreiddio’r systemau a chefnogi’r costau pontio.

- Clustnodwyd £5 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol o'r Cronfeydd Canolog ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd yng Nghonwy a Sir Ddinbych ac ar gyfer nifer o gynlluniau Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnwys Bro Abertawe, y Friog, Afon Dyfrdwy a Llechryd.

- Trosglwyddir £3.48 miliwn o gyllid cyfalaf o'r Rhaglen Rheoli Gwastraff i'r Cronfeydd Canolog oherwydd newidiadau yn y trefniadau gwariant a rhai arbedion a gyflawnwyd trwy'r rhaglen gaffael. Gwnaed addasiad ar gyfer y dyfodol i Gyllideb Derfynol 2013-14.

- Rwyf hefyd wedi cytuno i drosglwyddo £4.5 miliwn o'r cyllid refeniw i'r cyllid cyfalaf i'w fuddsoddi'n bennaf yn y gofynion cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r TGCh sydd eu hangen i sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae monitro misol o fewn y gyllideb Dileu TB wedi dangos y bydd tanwariant tebygol o £3.5 miliwn sy'n caniatáu i ni drosglwyddo'r adnoddau hyn; mae'r £1 filiwn sy'n weddill wedi ei throsglwyddo o gyllideb refeniw Cyfoeth Naturiol Cymru.

13. Gwnaed nifer o newidiadau eraill i'r MEG, a cheir manylion yn y Nodyn Esboniadol a gyhoeddwyd ar 5 Chwefror ar y cyd â Chyllideb Atodol mis Chwefror 2012-13.

14. Mae **Atodiad 2** hefyd yn rhoi eglurhad clir o bob newid cyllidebol a weithredwyd o fewn fy mhortffolio i o Gyllideb Derfynol 2012-13 i Gyllideb Atodol mis Chwefror 2012-13.

**Rhagolwg Alldro 2012/13**

15. Rwy'n falch o allu dweud bod y rhagolwg presennol ar gyfer yr adran yn dangos y byddwn yn mantoli'r cyfrifon ym mhob rhan o'r portffolio ac mae fy swyddogion yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd y sefyllfa hon yn parhau hyd ddiwedd y flwyddyn. Rwyf hefyd yn falch o adrodd ein bod yn rhagweld y bydd symiau mawr o fuddsoddiad cyllid cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd a rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn cael eu defnyddio'n unol â'r bwriad ac yn cyflawni eu nod wrth neilltuo'r arian ar eu cyfer.

16. Rwy'n awyddus iawn i sicrhau bod fy nghyllidebau i'n adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol a bod y cynigion yn y Gyllideb Atodol yn rhoi cyfle i mi ailgyfeirio arian i'r mannau sydd â'r angen mwyaf. Fe welwch o'r wybodaeth a roddwyd ynglŷn â'r ddwy gyllideb atodol fy mod wedi cyflawni hynny.

**Blaenoriaethau a Chynnydd**

17. Er nad yw'n bosibl rhoi sylw i'r portffolio cyfan yn y papur hwn, rwyf wedi amlinellu isod fanylion pellach rai o'm blaenoriaethau, gan ystyried y

meysydd arbennig yr oedd y Pwyllgor wedi eu nodi a oedd o ddiddordeb penodol.

***Y Bil Datblygu Cynaliadwy***

18. Cafodd Papur Gwyn y Bil Datblygu Cynaliadwy ei lansio ar 3 Rhagfyr 2012. Mae'n amlinellu'r cynlluniau i ddeddfu er mwyn rhoi'r ddyletswydd am Ddatblygu Cynaliadwy ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chreu corff annibynnol newydd ar Ddatblygu Cynaliadwy. Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 4 Mawrth 2013.

http://wales.gov.uk/consultations/sustainabledevelopment/sdwhitepaper/?lang=cy

19. Fel y soniwyd eisoes yn y papur hwn, ein blaenoriaethau ni yw creu swyddi a threchu tlodi. Mae datblygu cynaliadwy'n fframwaith i weithredu'r blaenoriaethau hyn a sicrhau ein bod yn eu cyflawni.

20. Pwrpas y papur yw cyflawni'r ymrwymiad sydd yn y Rhaglen Lywodraethu i ddeddfu er mwyn gosod egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd trefniadaeth Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi eu datganoli. Yn y bôn, y nod yw sicrhau bod effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a hirdymor yn cael eu hystyried wrth wneud ein penderfyniadau.

21. Mae pedair elfen i'r cynigion:
    - y *ddyletswydd* ar sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i ddangos bod pob elfen o ddatblygu cynaliadwy - economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol - yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau strategol ac wrth gyflawni eu gwaith;
    - y *gefnogaeth* i sefydliadau gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, a fydd yn cael ei chynnig gan Lywodraeth Cymru a'r corff Datblygu Cynaliadwy statudol;
    - yr *atebolrwydd* y bydd angen i ni a sefydliadau eraill ei ddangos, trwy fframweithiau sydd eisoes yn bodoli a thrwy waith Archwilydd Cyffredinol Cymru; a
    - *rhoi'r ddyletswydd ar waith* yn raddol er mwyn i bawb gael amser i ddeall beth yn union sydd angen iddynt ei wneud.

22. Y bwriad yw cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad erbyn diwedd y flwyddyn.

***Diwygio Cynllunio***

23. Mae'r gwaith sylweddol o ddiwygio'r system gynllunio eisoes ar waith. Ers datganoli, mae polisïau cynllunio cenedlaethol wedi eu diweddaru ac wedi eu rhoi ar waith. Mae'r polisïau hyn yn gweddu i anghenion Cymru, ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau datblygu cynaliadwy, adfywiad economaidd a chartrefi fforddiadwy. Er mwyn hwyluso'r gwaith hwn yn lleol, cyflwynwyd system cynlluniau datblygu lleol newydd. Mae'r broses ceisiadau cynllunio hefyd yn cael ei gwella ar hyn o bryd.

24. Bydd y Bil Diwygio Cynllunio'n rhoi cyfle i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol a fydd yn bwrw ymlaen â'r agenda ddiwygio. Yn y gorffennol, rydym wedi gorfod dibynnu ar Filiau Llywodraeth y DU, is-ddeddfwriaeth a pholisïau a chanllawiau. Mae'r gallu i greu ein deddfwriaeth sylfaenol ein hunain yn rhoi cyfle newydd i ni a dylid ei groesawu.

25. Mae'n rhaid seilio deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar dystiolaeth. Mae sail dystiolaeth gynhwysfawr wedi ei chrynhoi i lywio'r Papur Gwyn ar Gynllunio a gosod sail i'r Bil Diwygio Cynllunio. Cyhoeddir y Papur Gwyn a'r Bil drafft cyn diwedd 2013.

26. Ar berwyl arall, roeddwn yn falch bod swyddogion o'r Isadrannau Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a Chynllunio wedi gallu rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor fis diwethaf ynglŷn ag Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru - gyda lefel a graddfa datblygiadau tai mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn fater i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

***Adeiladu***

27. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i atgyfnerthu rheoliadau adeiladu er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni o 55% o'i gymharu â safonau adeiladu 2006, sy'n gyfystyr â 40% o'i gymharu â safonau 2010. Mae targedau ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladau'n gysylltiedig â gofynion deddfwriaethol Ewrop a fydd yn orfodol i bob gwladwriaeth Ewropeaidd o 2021.

28. Roedd ein cynigion, yr ymgynghorwyd arnynt yn ddiweddar, ar gyfer newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu'n ystyried dau opsiwn mewn perthynas â lleihau allyriadau carbon mewn cartrefi newydd. Naill ai lleihad o 40% mewn perthynas â safonau Rhan L 2010 o fis Ionawr 2015 neu leihad o 25% o 2014. Roedd cynigion hefyd i wella 20%, 10% neu 11% ar Ran L 2010 ar gyfer adeiladau newydd annomestig.

29. Derbyniwyd 91 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r rhain wedi eu dadansoddi ac fe'u cyflwynwyd i Bwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ar 24 Ionawr 2013. Gwnaethpwyd nifer o argymhellion a rhoddwyd nifer o gamau ar waith yn sgil y cyfarfod hwn. Bydd swyddogion yn datblygu mwy o gynigion Rhan L yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.

30. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys modelu hyfywedd mewn perthynas ag effaith yr opsiynau 25% a 40% a chynnwys chwistrellwyr mewn cartrefi newydd ar ddatblygiadau tai. Cyflwynwyd y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) ym mis Ebrill 2011. Ar hyn o bryd, y bwriad yw cyflwyno systemau chwistrellu i rwystro tân o fis Medi 2013 a bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar sut y bydd hyn yn cael ei weithredu'n digwydd cyn mis Medi.

### *Cyfoeth Naturiol Cymru*

31. Edrychaf ymlaen at weld Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cael ei sefydlu ddechrau fis Ebrill ac rwy'n falch o adrodd fod y broses o greu'r corff newydd yn mynd rhagddi yn unol â'r amserlen. Roeddwn yn falch o gael cyhoeddi datganiad ysgrifenedig fis diwethaf ar yr achos busnes a'r costau.

http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/naturalresourceswales/?skip=1&lang=cy

32. Ar ôl i'r corff gael ei sefydlu, rwyf yn disgwyl i CNC ddatblygu'n sefydliad o safon uchel, a fydd yn broffesiynol, yn effeithlon, yn ymateb i anghenion cwsmeriaid ac yn cefnogi a chyfrannu'n weladwy at agenda datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

### *Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol*

33. Mae Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol wedi ei chreu i gyflawni'r ymrwymiadau polisi a restrwyd yn y Papur Gwyrdd, Cynnal Cymru Fyw. Mae'n cynnwys, ymysg pethau eraill:

- cyflawni Bil yr Amgylchedd;
- y fframwaith polisi strategol mewn perthynas â rheolaeth adnoddau naturiol, yn cynnwys gosod blaenoriaethau cenedlaethol;
- sefydlu'r dull ecosystemau, gan gynnwys prosiectau arddangos cysylltiedig; a
- rheoli'r berthynas polisi a chydlynu trefniadau rheoli perfformiad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

34. Mae'r gwaith wedi dechrau o ddatblygu cynigion ar gyfer newidiadau deddfwriaethol y bydd eu hangen i gynnal y gwaith o reoli adnoddau naturiol a dyheadau eraill a amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd, gyda'r bwriad o'u cynnwys ym Mil yr Amgylchedd sydd ar y gweill.

35. Mae Papur Gwyn ar gyfer y Bil yn cael ei ddatblygu i'w gyhoeddi'n ddiweddarach eleni, a chaiff y Bil ei gyflwyno i'r Cynulliad yn 2015.

### *Llwybr Arfordir Cymru*

36. Rydym yn buddsoddi £1.15 miliwn yn 2013/14 i sicrhau bod Llwybr Arfordir Cymru yn gyson o safon uchel. Mae hyn yn ategu buddsoddiad Llywodraeth Cymru o hyd at £2 filiwn y flwyddyn rhwng 2007 a 2013. Ffrwyth y buddsoddiad hwn oedd agor llwybr 870 milltir o gwmpas arfordir cyfan Cymru. Ategwyd buddsoddiad Llywodraeth Cymru gyda £3.9 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop rhwng 2009 a 2013.

37. Adroddodd gwaith ymchwil gan Uned Ymchwil Economaidd Cymru fod 2.89 miliwn o bobl wedi ymweld â Llwybr Arfordir Cymru rhwng mis Medi 2011 a mis Awst 2012. Canlyniad hyn oedd gwerth £32.2 miliwn o alw ar economi Cymru, sy'n cyfateb i £16.1 miliwn o Werth Ychwanegol

Crynswth, sy'n dipyn o swm.

38. Agorwyd Llwybr Arfordir Cymru'n swyddogol ym mis Mai 2012 ond bu'r gwaith ymchwil yn edrych ar y defnydd o'r llwybr rhwng mis Medi 2011 – pan oedd nifer o'r prif lwybrau yn barod wedi eu hagor – a mis Awst 2012.

39. O fis Ebrill 2013, bydd y Rhaglen Gwella Mynediad Arfordirol yn cael ei chydlynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

***Rhaglen forol***

40. Rwyf wedi ymrwymo i weledigaeth y DU o foroedd glân, iach, diogel, ffrwythlon a bioamrywiol ac amcanion morol lefel uchel y DU i gyflawni'r weledigaeth hon. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, rwy'n sefydlu rhaglen forol ar gyfer y pedwar maes pwysig a chyd-ddibynnol yn y gwaith polisi sef cynllunio morol, gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, cadwraeth natur forol a thrwyddedu morol.

41. Mae'r rhaglen forol yn cael ei chynllunio i weithio mewn dull integredig gyda meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru, yn benodol Pysgodfeydd, Ynni a Thwristiaeth, er mwyn cynnal ei natur drawsbynciol.

42. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r trefniadau sy'n angenrheidiol i roi cefnogaeth i'r rhaglen forol, gan gynnwys adnoddau. Un thema hollbwysig sy'n sail i'r adolygiad yw cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig cymunedau arfordirol lleol, gan gynnwys rôl fforymau arfordirol sy'n adlewyrchu'r dull o weithio sy'n seiliedig ar yr ecosystem.

43. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agos â Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y rhaglen yn derbyn cefnogaeth effeithiol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a'i hasiantaethau, yn enwedig y Sefydliad Rheoli Morol, a llywodraethau eraill i sicrhau bod polisïau morol pob un ohonom yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn dull integredig. Byddwn yn edrych ar ffurfioli trefniadau gwaith sydd eisoes yn bodoli ar ffurf concordatiau neu femoranda cyd-ddealltwriaeth yn ôl y galw.

44. Yn ystod gwanwyn a haf 2012, cynhaliwyd ymgynghoriad cam cyntaf ar yr opsiynau ar gyfer dynodi parthau cadwraeth morol yn nyfroedd glannau Cymru, wedi eu seilio ar ddull gwarchodedig iawn. Cafwyd tua 7,000 ymateb i'r ymgynghoriad, a chafwyd ystod o safbwyntiau pendant a gwahanol ynglŷn â sut y dylid defnyddio'r pŵer dynodi newydd a hefyd ar oblygiadau'r dull gwarchodedig iawn.

45. Ym mis Tachwedd, cyhoeddais y byddai cyfnod o waith ychwanegol i fyfyrio ar y wybodaeth a dderbyniwyd a'i hystyried yn llawn, er mwyn i ni wybod sut i fwrw ymlaen mewn perthynas â pharthau cadwraeth morol yng Nghymru. Mae'r gwaith ychwanegol hwn yn cyd-fynd â'n dull o fynd ati fesul cam, gan wrando ar adborth, ymateb a gofyn am farn bellach

gan unrhyw grwpiau perthnasol cyn penderfynu ar y camau nesaf. Mae'n cyd-fynd â'n hymrwymiad i weithio ar draws meysydd polisi mewn dull cydgysylltiedig. Caiff y gwaith ychwanegol ei lywio gan dîm trawsbynciol newydd yn Llywodraeth Cymru a'i gefnogi gan grŵp ffocws newydd o randdeiliaid.

46. Ar hyn o bryd, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu morol ar gyfer dyfroedd glannau Cymru yn ôl Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Ar ôl ymgynghori, rydym yn dirprwyo swyddogaeth trwyddedu morol (yn ogystal â thrwyddedu bywyd gwyllt fwy neu lai) i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn symleiddio swyddogaethau rheoleiddio'r amgylchedd. Llywodraeth Cymru fydd yn parhau'n gyfrifol am bolisi trwyddedu a bydd yn rhan hollbwysig o'r rhaglen forol.

47. Mae parhad busnes yn hollbwysig ac rydym yn mynd i'r afael â hyn trwy'r trefniadau rheoli prosiect penodol sydd wedi eu sefydlu ar gyfer dirprwyo swyddogaethau trwyddedu.

***Ynni***

48. Mae Ynni Cymru'n amlinellu prif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Rydym eisiau agwedd gwirioneddol gynaliadwy tuag at ynni sy'n adlewyrchu'r egwyddor drefniadol ganolog ac yn gwella lles pobl Cymru.

49. Mae cynhyrchiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru wedi cynyddu 1,029 GWh yn 2004 i 2,159 yn 2011. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 2.9% o'r cyfanswm a gynhyrchwyd yn 2004 i 7.9% o'r cyfanswm yn 2011.

50. Byddwn yn cynllunio ac yn rheoli'n ofalus y berthynas rhwng datblygiadau ynni a'n hamgylchedd naturiol yn unol ag uchelgais 'Cynnal Cymru Fyw'. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r Grid Cenedlaethol i liniaru effeithiau'r seilwaith trawsyrru newydd.

51. Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn codi mater datganoli'r broses o gydsynio prosiectau ynni yng Nghymru gyda Llywodraeth y DU yn gyson. Rydym yn parhau i ddadlau y dylai Cymru reoli ei hadnoddau, gan gynnwys cydsynio i brosiectau cynhyrchu ynni a seilwaith ynni cysylltiedig. Bydd sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru'n helpu i symleiddio'r broses cydsynio.

***Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd***

52. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau ym maes tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni gan gynnwys parhau gyda'r cynlluniau Nyth ac arbed.

53. Rydym yn buddsoddi o leiaf £30 miliwn yn Nyth ac arbed yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac o leiaf £36 miliwn yn 2013/14. Bydd yr arian hwn yn helpu i wella effeithlonrwydd ynni tua 5,000 o gartrefi yn 2012/13

a thua 6,000 o gartrefi yn 2013/14, gan leihau'r perygl y bydd yr aelwydydd hyn yn byw mewn tlodi tanwydd.

54. Mae trafodaethau gyda chwmnïau ynni'n parhau i edrych ar y posibiliadau sydd ar gael i ddod o hyd i adnoddau ychwanegol trwy'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) er mwyn cynorthwyo i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru.

55. Mewn perthynas â'r Fargen Werdd, mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghymru trwy Raglen Ddatblygu'r Gadwyn Gyflenwi. Ei nod yw cefnogi cwmnïau wrth iddynt fynd trwy broses achredu ac ardystio'r Fargen Werdd a'u helpu i ddeall y cyfleoedd sydd ar gael trwy'r rhaglenni newydd. Mae'r rhaglen hefyd yn darparu cysylltiadau â'r Ymddiriedolaeth Garbon a'r benthyciadau di-log y gellir eu cael i helpu gyda'r costau sydd ynghlwm wrth achredu ac ardystio. Erbyn 21 Rhagfyr 2012, roedd 19 cwmni wedi gwneud cais am fenthyciadau di-log a oedd yn dod i gyfanswm o £95,500.

***Gwastraff***

56. Ein huchelgais ni - fel y nodwyd yn y ddogfen *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* - yw ailgylchu 70% o'n gwastraff erbyn 2025 a bod yn genedl ddiwastraff erbyn 2050. Cymru yw'r unig wlad i fanylu'n union sut mae'n bwriadu cyflawni hyn.

57. Mae Cymru bellach yn ailgylchu neu'n compostio mwy na hanner o'i gwastraff trefol – mae'r ystadegau diweddara'n dangos fod cynghorau Cymru gyda'i gilydd wedi ailgylchu 53% o'u gwastraff yn chwarter cyntaf 2012/13. Golyga hyn fod Cymru'n parhau i arwain y ffordd ar ailgylchu yn y DU ac y dylai gyrraedd ei tharged statudol o 52% (erbyn diwedd 2012-2013).

58. Mae cynnal rhaglenni lleihau gwastraff a lleihau'r nifer o ddeunyddiau bioddiraddiadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi'n gamau gweithredu allweddol o'r Rhaglen Lywodraethu sy'n sicrhau bod Cymru, fel cenedl, yn gwneud y defnydd gorau posibl o'i hadnoddau.

***Ansawdd yr amgylchedd lleol***

59. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i roi dros £2.6 miliwn yn 2012-13 i brosiectau sy'n gwella ansawdd yr amgylchedd lleol yng Nghymru.

60. Rhan allweddol o hyn yw'r cynllun Trefi Taclus, a lansiwyd ym mis Ebrill 2008, er mwyn grymuso cymunedau i ysgwyddo cyfrifoldeb dros ansawdd yr amgylchedd lleol yn eu hardaloedd. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi arian i Cadwch Gymru'n Daclus, y 22 awdurdod lleol a grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi i ymgymryd â phrosiectau penodol sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd lleol megis sbwriel, tipio anghyfreithlon a graffiti.

61. Mae'n bleser gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd yr amgylchedd yn lleol a gobeithio y gallwn barhau i ddatblygu'r holl waith sydd wedi ei gyflawni'n barod.

***Cymunedau trefol***

62. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn dechrau gwaith mewn saith ardal drefol i brofi sut y gallwn gynnig cefnogaeth i ddatblygiad lleol cymunedau mwy cynaliadwy a chryf yn y dyfodol. Mae holl ddarpariaeth Llywodraeth Cymru i gymunedau'n dod ynghyd yn y mannau ble mae pobl yn byw; felly bydd y gwaith o hyn ymlaen yn ceisio defnyddio pob un o feysydd polisi fy Adran, yn ogystal â meysydd adrannau eraill, er mwyn sicrhau dull mwy cydgysylltiedig ac integredig o geisio gwella ardaloedd lle y gwyddom fod yna dlodi.

63. Bydd y datblygiadau hyn yn adeiladu ar waith da Cadwch Gymru'n Daclus, Groundwork, Amgylchedd Cymru a nifer o sefydliadau trydydd sector eraill. Bydd awdurdodau lleol a busnesau lleol hefyd yn bartneriaid allweddol yn y gwaith.

64. Eleni, rydym yn buddsoddi o leiaf £100,000 yn ein gwaith newydd ar Gymunedau Trefol Cynaliadwy – fy mwriad yw y bydd y buddsoddiad yn cynyddu'n sylweddol yn 2013/14. Bydd yr arian hwn yn helpu i sicrhau gwelliannau gweladwy yn y saith safle sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd trefol. Bydd y cymunedau a fydd yn derbyn y gefnogaeth yn gweld gwelliannau i'r amgylchedd lleol, gwell effeithlonrwydd ynni, gwell twf lleol, gwell bioamrywiaeth, gwell mynediad i ynni adnewyddadwy cymunedol a chysylltiadau cryfach â'r amgylcheddau gwyrdd a glas. Bydd hyn yn gymorth i wella iechyd a lles ac felly'n helpu i drechu tlodi a gwella'r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chael swyddi.

***Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol***

65. Yng Nghymru, mae ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd yn lleihau perygl llifogydd i dros 70,000 o adeiladau. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae cynlluniau lliniaru llifogydd wedi lleihau'r perygl i dros 4,500 o gartrefi a busnesau yng Nghymru mewn ardaloedd megis Dyffryn Conwy, Tywyn, Aber Afon Clwyd ac Abergele.

66. Mae cynllun Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd wedi helpu 300 o gymunedau i baratoi eu cynlluniau llifogydd eu hunain, ac mae 100,000 o bobl yng Nghymru wedi gofyn am gael derbyn rhybuddion llifogydd.

67. Rydym yn buddsoddi dros £150 miliwn i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ystod tymor y Cynulliad hwn, ac mae bron i £50 miliwn o arian ychwanegol yn dod o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

68. Mae'r Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol hefyd wedi

derbyn cyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £11 miliwn yn 2012-13, yn cynnwys:

- £2 filiwn o Gyfnod 2 y Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog i leihau'r perygl i gartrefi a busnesau sydd mewn sefyllfa fregus yn ardaloedd Bae Colwyn a Borth yng Ngogledd a Gorllewin Cymru (gweithredwyd yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin 2012-13);

- £4 miliwn o'r Cronfeydd Canolog ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd ym Mae Colwyn, Talgarth, Gilfach Ceri a Borth, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012 i gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (a weithredwyd yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin 2012-13); a

- £5 miliwn o'r Cronfeydd Canolog ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd yng Nghonwy, Sir Ddinbych ac ar gyfer nifer o gynlluniau Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnwys Bro Abertawe, y Friog, Afon Dyfrdwy a Llechryd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013 ac a weithredwyd yng Nghyllideb Atodol mis Chwefror 2012-13.

69. Hefyd, roedd Cyllideb Ddrafft 2013-14 yn cynnwys £10 miliwn pellach o'r Cronfeydd Canolog i gefnogi gwelliannau angenrheidiol i amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol ar draws Cymru (£4 miliwn yn 2013-14 a £6 miliwn yn 2014-15).

70. Fy mlaenoriaeth i nawr yw sicrhau bod pobl yn yr ardaloedd a gafodd eu heffeithio yn dychwelyd i'w bywydau bob dydd cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid i gwmnïau yswiriant chwarae eu rhan a pheidio â gwastraffu amser cyn helpu'r deiliaid tai a effeithiwyd. Rwyf hefyd yn ymrwymo i sicrhau bod yswiriant yn parhau ar gael i bawb yng Nghymru ar ôl i'r Datganiad Egwyddorion ddod i ben ym mis Mehefin 2013.

***Dŵr***

71. Rydym ni'n gweithio gyda rhanddeiliaid ar hyn o bryd i wneud gwaith paratoadol ar gyfer Strategaeth Ddŵr i Gymru, ac yn bwriadu cyhoeddi'r strategaeth er mwyn ymgynghori arni yn ddiweddarach eleni.

72. Bydd y Strategaeth yn gosod cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi dŵr i Gymru yn y dyfodol a bydd yn ystyried sut, fel Llywodraeth, y gallwn gefnogi anghenion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru.

73. Mae sicrhau bod biliau dŵr yn fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol. Rwyf am sicrhau opsiynau prisio teg ac effeithiol am wasanaethau dŵr er mwyn gwella effeithlonrwydd, lleihau dyledion a darparu canlyniadau i bob cwsmer, gan amddiffyn grwpiau mwy bregus.

74. Byddaf yn cyhoeddi Canllaw Tariffau Cymdeithasol i Gymru yn

ddiweddarach yn y mis. Mae tariffau cymdeithasol yn rhan o becyn cymorth sydd wedi ei dargedu'n effeithiol fel y gall cwsmeriaid dalu eu biliau, ac mae'n cynnwys help gyda mesuryddion, dulliau talu, cyngor ar ddyled ac effeithlonrwydd dŵr.

75. At hyn, mae fy swyddogion yn cefnogi'r Bil Dŵr drafft – bil ar y cyd ar gyfer Cymru a Lloegr. Prif ffocws y Bil yw cynigion Defra ar ddiwygio'r farchnad manwerthu a'r farchnad sydd ymhellach oddi wrth y cwsmer – cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y Papur Gwyn: Water for Life.

76. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau mai'r cwsmer yw prif ganolbwynt gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Ein nod yw gweld gwasanaeth o safon uchel sy'n fforddiadwy, yn gadarn ac yn gallu ymateb i ofynion cwsmeriaid domestig a busnes yng Nghymru.

77. Mae 100 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru ar hyn o bryd, o'u cymharu ag 88 yn 2011. Mae'r dyfroedd dynodedig hyn wedi eu lleoli ar 99 o draethau Cymru ac yn Llyn Morwrol y Rhyl.

78. Dengys ffigurau ar gyfer 2012 bod 97% o'r dyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru yn cyd-fynd â safonau gorfodol a bod tri chwarter (75%) yn bodloni safonau mwy llym y Canllaw Ewropeaidd. Dylid cymharu hyn â'r 62% sy'n bodloni safonau'r canllaw ledled Cymru a Lloegr.

### *Iechyd a Lles Anifeiliaid*

79. Mae fy mhrif amcanion o ran cefnogi iechyd a lles anifeiliaid yn cynnwys:

- hyrwyddo safonau uwch ym maes iechyd a lles anifeiliaid a darparu gwasanaethau iechyd anifeiliaid sy'n addas i'r diben;
- amddiffyn rhag lledu clefydau heintus mewn anifeiliaid a bod yn barod i ddelio ag unrhyw achosion o glefydau hysbysadwy mewn anifeiliaid a allai ddigwydd yng Nghymru;
- gweithio i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i weithio ar sail tystiolaeth wyddonol wrth fynd i'r afael â TB buchol; a
- chyfrannu tuag at amddiffyn iechyd y cyhoedd.

80. Mae gennym raglen gynhwysfawr i ddileu TB buchol ar waith ledled Cymru sy'n mynd i'r afael â phob ffynhonnell haint. Mae hyn yn cynnwys rhoi profion TB blynyddol i wartheg, gwaredu a lladd gwartheg adweithiol a rhoi profion cyn symud i wartheg. Yn fy natganiad ym mis Ionawr eleni, cyhoeddais welliannau a fydd yn atgyfnerthu ymhellach ein polisïau mewn perthynas â gwyliadwriaeth a mesurau rheoli gwartheg. Rwyf hefyd yn ymrwymo i ddatblygu a rhoi ar waith strategaeth brechu gwartheg cyn gynted â phosibl.

81. Fis diwethaf, cyhoeddais nifer o welliannau pellach i wyliadwriaeth a mesurau rheoli gwartheg, gan gynnwys newidiadau yn y mesurau rheoli

ar symud gwartheg a chael gwared yn raddol ag Unedau Cwarantin Wedi'u Cymeradwyo o hyn tan ddiwedd y flwyddyn.

82. Os ydym am gyflawni'r nod o ddileu'r afiechyd gwanychol hwn, mae'n rhaid ymdrin â phob ffynhonnell TB. Mae brechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yn caniatáu i ni ddechrau mynd i'r afael â'r gronfa fawr hon o haint mewn anifeiliaid gwyllt.

83. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Cynllun Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ar Gyfer Clefydau Anifeiliaid Egsotig yn cael ei adolygu'n flynyddol, gan ystyried newidiadau i strwythurau trefniadol adrannau'r Llywodraeth, polisïau ac unrhyw ganlyniadau a ddaw yn sgil ymarferion.

84. Cyhoeddir cynllun diwygiedig yn ystod gwanwyn 2013. Caiff y cynlluniau eu profi'n rheolaidd trwy ymarferion a gaiff eu cynnal gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn helpu i gynllunio'r ymarferion hyn ac yn rhan ymarferol o'r ymarferion er mwyn helpu i brofi ein cynlluniau wrth gefn.

85. Mewn meysydd eraill, mae'r Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2013 yn cael eu rhoi ar waith o dan Ran 12 Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Bydd hyn yn disodli Deddf Bridio Cŵn 1973 (fel y'i diwygiwyd) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau wedi bod yn destun dwy broses ymgynghori gyda'r cyhoedd a byddant yn cael eu trafod mewn Cyfarfod Llawn yn ddiweddarach eleni.

**Bil Rheoli Cŵn (Cymru)**

86. Lansiais yr ymgynghoriad ar y Bil drafft ar 23 Tachwedd 2012 yng nghyfleuster cartrefu'r RSPCA yng Nghasnewydd. Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 1 Mawrth.

http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/121123controlofdogs/?skip=1&lang=cy

87. Egwyddor sylfaenol y Bil yw annog perchnogion cŵn i fod yn gyfrifol a hyrwyddo ymyrraeth weithredol pan fo cŵn i weld allan o reolaeth. Dyma gynigion y Bil:

- yr awdurdodau gorfodi i archwilio er mwyn adnabod yn gynnar y cŵn sydd allan o reolaeth a gwneud darpariaeth ar gyfer Hysbysiadau Rheoli Cŵn a all gael eu cyflwyno i berchnogion cŵn os oes angen. Bydd disgwyl i berchnogion newid ymddygiad y ci trwy hyfforddiant addas cyn iddo droi'n beryglus;

- canolbwyntio ar yr hyn y mae'r ci'n ei wneud ac ymddygiad y ci yn hytrach na'r brîd neu'r math o anifail;

- cyflwyno cosbau troseddol addas er mwyn annog perchnogion cŵn i fod yn fwy cyfrifol; a

